Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

# Arweiniad ynghylch Llunio Amodau

(Gorchmynion Cofrestru Amodol a Gorchmynion Atal sy'n pennu amodau)

## 1 Cyflwyniad

Diben yr arweiniad hwn yw cynorthwyo Cadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer wrth lunio amodau pan fo'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylid gosod Gorchymyn Cofrestru Amodol neu Orchymyn Atal (sy'n pennu amodau) ar gofrestriad person cofrestredig.

Gwahaniaeth allweddol i Bwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer o'u cymharu â'r Pwyllgorau Ymddygiad a Chymhwysedd Proffesiynol cynt a gynhaliwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) yw ei fod yn penderfynu a ddylid cymhwyso'r Gorchymyn penodol nid yn unig i'r categori cofrestru yr oedd y person yn ymarfer ynddo ar adeg yr atgyfeiriad i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), ond hefyd i unrhyw gategorïau eraill y mae'r person wedi'i gofrestru ynddynt ar adeg penderfyniad y Pwyllgor. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle bydd amodau'n cael eu cymhwyso i'r Gorchymyn.

**Atgoffir aelodau Pwyllgorau mai 'arweiniad yn unig' yw'r Arweiniad ynghylch Llunio Amodau. Bydd angen i aelodau Pwyllgorau ddefnyddio'u crebwyll eu hunain wrth benderfynu a fyddant yn gosod amodau ai peidio am fod gan bob achos y potensial i fod yn wahanol ac, felly, bydd angen ymdrin â phob un yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau unigryw ei hun.** Yn yr un modd, ni ddylai personau cofrestredig nac eraill geisio 'pennu' pa amodau y gellid eu gweithredu mewn unrhyw achos penodol ar sail cynnwys yr arweiniad hyn.

Caiff Arweiniad CGA ynghylch Llunio Amodau ei adolygu a'i ailgyhoeddi'n barhaus.

## 2 Strwythur yr arweiniad hwn

Cyflwynir yr arweiniad hwn fel a ganlyn:

- **Egwyddorion allweddol wrth lunio:** Arweiniad penodol y dylai Pwyllgor ei ddilyn wrth lunio Gorchymyn Cofrestru Amodol, neu Orchymyn Atal sy'n pennu amodau, i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys.

- **Monitro:** Esboniad byr ar sut mae CGA yn monitro'r amodau a osodir gan Bwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer.

- **Cronfa Amodau** (Atodiad A): Mae'r gronfa'n cynnwys geiriau *a awgrymir* i Bwyllgorau eu defnyddio er mwyn mynd i'r afael â'r holl elfennau a ddisgrifir yn Adran 3.

## 3 Egwyddorion allweddol wrth lunio

### 3.1 Y prif ystyriaethau i Bwyllgor *cyn* llunio amodau Gorchymyn Cofrestru Amodol neu Orchymyn Atal:

Dylai Pwyllgor ystyried y canlynol yn ofalus cyn llunio amodau:

(a) **Diben amod:** rhaid i Bwyllgor fod yn hyderus y bydd unrhyw amodau mae'n eu gosod yn galluogi ymarferydd addysg i gymryd camau i unioni unrhyw ddiffygion yn ei ymddygiad/hymddygiad neu ei gymhwysedd/chymhwysedd y mae Pwyllgor wedi'u canfod, tra'u bod yn gosod cyfyngiadau arno/arni er mwyn diogelu dysgwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau addysg.

Mae'n **rhaid** i'r ymarferydd y gwnaed y canfyddiadau yn ei erbyn **ddangos potensial a pharodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i amodau, ac mae'n rhaid iddo/iddi ddangos digon o grebwyll i awgrymu y bydd yn gallu cydymffurfio â'r amodau.**

Dylai’r amodau a osodir **ystyried budd dysgwyr, y cyhoedd a’r proffesiynau addysg**. Ni ddylai’r amodau geisio cosbi’n benodol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai amodau gael effaith gosbol.

(b) **Categorïau cofrestru:** Fel y nodir uchod, gwahaniaeth allweddol i Bwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer o’u cymharu â’r Pwyllgorau Ymddygiad a Chymhwysedd Proffesiynol cynt yw penderfynu a ddylid cymhwyso’r Gorchymyn penodol i’r categori cofrestru yr oedd y person yn ymarfer ynddo ar adeg yr atgyfeiriad i CGA yn unig, neu a ddylid ei gymhwyso i gategorïau eraill y mae’r person wedi’i gofrestru ynddynt ar adeg penderfyniad y Pwyllgor. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle y bydd amodau’n cael eu cymhwyso i’r Gorchymyn.

Pe bai amodau’n cael eu gosod lle y bydd Gorchymyn yn cael ei gymhwyso i fwy nag un categori cofrestru, dylai’r Pwyllgor ystyried yn ofalus a oes angen addasu’r amodau ai peidio i gynnwys y categorïau cofrestru ychwanegol, er mwyn mynd i’r afael ag effaith yr ymddygiad neu’r anghymhwysedd a ganfuwyd yn y meysydd hynny.

(c) **Cofrestru:** os nad yw ymarferydd wedi’i gofrestru ar adeg ei benderfyniad, nac yn cyflawni ‘gwaith penodedig’ athro, dylai Pwyllgor gofio nad yw hynny’n ei rwystro rhag gosod Gorchymyn Cofrestru Amodol neu Orchymyn Atal gydag amodau.

**Fodd bynnag, bydd angen iddo ystyried mater cofrestru yn ofalus oherwydd nad yw personau nad ydynt wedi’u cofrestru naill ai’n ceisio cydymffurfio ag amodau a osodir, ym mhrofiad y Cyngor, neu nid ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny.** Os nad yw'r person wedi'i gofrestru ar hyn o bryd, gallai'r Pwyllgor fod o'r farn ei bod yn annhebyg y bodlonir amodau o'r fath, yn absenoldeb tystiolaeth glir, gadarnhaol o barodrwydd i gydymffurfio ag amodau ar gofrestriad yn y dyfodol.

Pan osodir amodau a lle nad yw’r person wedi’i gofrestru ar y pryd, dylai'r Pwyllgor sicrhau bod yr ymarferydd yn ymwybodol, drwy'r ffordd y caiff y Gorchymyn ei lunio, y bydd unrhyw amodau a osodir yn berthnasol o'r dyddiad ailgofrestru, os bydd ef neu hi'n ailgofrestru gyda CGA yn y dyfodol.

(d) **Amcanion:** dylai Pwyllgor fod yn hyderus y bydd yr amodau y mae’n eu gosod yn egluro wrth yr ymarferydd yr hyn sydd angen iddo/iddi ei wneud, neu beidio â'i wneud, er mwyn cydymffurfio â'r amodau. Bydd rhaid llunio unrhyw amodau yn y fath fodd fel eu bod yn galluogi'r person i'w bodloni.

(e) **Terfynau**: dylai Pwyllgor feddwl yn ofalus cyn gosod terfynau y bydd Gorchymyn Cofrestru Amodol neu Orchymyn Atal yn gofyn bod ymarferydd yn ymddwyn oddi mewn iddynt yn broffesiynol/yn ei fywyd preifat, pan fyddai ymddygiad gofynnol o'r fath, mewn amgylchiadau arferol, yn gyfystyr â'r safon ofynnol a ddisgwylir gan berson cofrestredig. Dylai Pwyllgor ystyried hefyd pa gyfnod fyddai’n briodol yn yr amgylchiadau hyn.

Er enghraifft:

(i) os bydd aelodau Pwyllgor yn cytuno bod y gofyn bod ymarferydd yn parchu’r gyfraith yn amod pwysig i'w osod er budd dysgwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau addysg o ystyried ei ganfyddiadau, a ddylai gymhwyso'r gofyniad hwn am gyfnod y Gorchymyn yn unig (er enghraifft, 12 mis), neu 'heb derfyn amser'?

(ii) os bydd aelodau Pwyllgor yn cael bod ymarferydd yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol o ganlyniad iddo neu iddi gyrchu ac edrych ar wefannau pornograffig (oedolion) yn yr ysgol, er budd dysgwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau addysg, a ddylai Pwyllgor ofyn ei fod neu ei bod yn cadw at bolisi'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd am gyfnod y Gorchymyn yn unig (er enghraifft, 12 mis), neu 'heb derfyn amser'?

(f) **Monitro:** mae'n rhaid i Bwyllgor sicrhau bod amodau'n cael eu llunio yn y fath fodd fel eu bod yn caniatáu i CGA eu monitro'n effeithiol.

Er enghraifft:

(i) os bydd Pwyllgor yn gosod cyfyngiad bod rhaid i ymarferydd beidio â dod i gysylltiad â disgyblion y tu allan i'r ysgol oni cheir caniatâd uwch reolwr yn yr ysgol, caiff yr amod ei leihau yn gyfarwyddyd na ellir ei fonitro os na fydd y Pwyllgor yn egluro sut caiff hyn ei fonitro a chan bwy.

(ii) os bydd Pwyllgor yn gosod amod bod rhaid i ymarferydd gael ei fonitro dros gyfnod o 12 mis am ymatal rhag alcohol, ni fydd yr amod yn gallu cael ei fonitro gan CGA os nad yw'r Pwyllgor yn esbonio sut yr ymgymerir â'r gwaith monitro hn, a chan bwy, a pha dystiolaeth y bydd ei hangen.

**3.2 Gwybodaeth safonol i'w chynnwys mewn Gorchymyn Cofrestru Amodol neu Orchymyn Atal sy'n nodi amodau**

Mae'n rhaid cynnwys yr wybodaeth safonol ganlynol yn yr **holl** orchmynion sy'n nodi amodau.

(a) **Dyddiad dod i rym:** mae'n rhaid i Bwyllgor nodi'n glir o ba ddyddiad y mae Gorchymyn a'i amodau i ddod i rym, naill ai:

(i) ar unwaith; neu

(ii) o ddyddiad ailgofrestru'r person gyda CGA (os yw heb ei gofrestru ar adeg penderfyniad y Cyngor). Yn yr achos hwn, dylai'r ymarferydd fod yn ymwybodol, yn sgîl y dull o lunio'r Gorchymyn a'r amodau, y bydd unrhyw amodau'n berthnasol o'r dyddiad cofrestru os bydd yn ailgofrestru gyda CGA yn y dyfodol. **Fodd bynnag, bydd y Gorchymyn ei hun yn dod i rym ar unwaith.**

(b) **Hyd:** mae'n rhaid i Bwyllgor nodi'n glir am ba hyd y bydd y Gorchymyn a'i amodau'n berthnasol:

(i) <u>Heb derfyn amser (yn barhaol).</u>

Mae'r cyfnod hwn ond yn gallu bod yn berthnasol i Orchymyn Cofrestru Amodol, ac amodau'r Gorchymyn hwn. *Noder: os nad yw Pwyllgor yn pennu am ba hyd y bydd Gorchymyn mewn grym, bydd mewn grym yn barhaol.*

Dim ond am 2 flynedd ar y mwyaf y gall Gorchymyn Atal fod mewn grym.

Mae amod a osodir 'heb derfyn' gan Bwyllgor mewn perthynas â Gorchymyn Atal yn golygu y gellir bodloni'r amod 'ar unrhyw adeg' yn ystod cyfnod y Gorchymyn Atal, yn hytrach nag mewn cyfnod penodol, diffiniedig. Nid yw'n golygu y bydd yr amod mewn grym yn barhaol.

(ii) <u>am gyfnod a bennir gan Bwyllgor</u>.

Mae'n rhaid i Bwyllgor nodi y caiff Gorchymyn ei ddileu oddi ar gofrestriad person penodol dim ond os cydymffurfir â'r holl amodau a nodir ynddo *o fewn* y terfyn amser a bennir. Os na chydymffurfir â'r amodau yn y cyfnod amser hwnnw, gellir defnyddio Rheol 31.

**Dylai Pwyllgor ofalu nad yw'n pennu dyddiad gorffen Gorchymyn os nad yw'r ymarferydd wedi'i gofrestru ar adeg ei benderfyniad. Yn hytrach, dylai'r Pwyllgor nodi am ba hyd y bydd y Gorchymyn yn berthnasol pe bai'n ailgofrestru gyda CGA.**

(c) **Trosglwyddedd:** mae'n rhaid i Bwyllgor nodi'n glir, os bydd yr ymarferydd dan sylw:

(i) yn dechrau swydd addysgu newydd, er enghraifft, sy'n gofyn iddo gofrestru gyda CGA yn ystod cyfnod y Gorchymyn; neu

(ii) yn symud o un swydd addysgu i swydd addysgu arall, er enghraifft, sy'n gofyn iddo gofrestru gyda CGA yn ystod cyfnod y Gorchymyn,

fod rhaid iddo neu iddi:

(iii) hysbysu ei (d)darpar gyflogwr neu ei (h)asiant am y Gorchymyn a'r amodau cysylltiedig *cyn* derbyn penodiad (yn ddelfrydol, drwy ddarparu copi o'r Hysbysiad Penderfyniad ei hun). At y diben hwn, ystyr 'cyflogwr' yw'r ysgol, y Corff Llywodraethu a/neu'r Awdurdod Lleol neu'r asiantaeth neu'r Sefydliad Addysg Bellach;

(iv) hysbysu swyddog CGA a awdurdodir yn briodol yn ysgrifenedig er mwyn i CGA allu gwirio bod unrhyw fonitro yn parhau gyda'r cyflogwr neu'r asiant newydd.

**3.3 Gwybodaeth safonol i'w chynnwys mewn amodau sy'n cynnwys hyfforddiant a/neu ofyniad i ddarparu adroddiadau cynnydd i CGA**

Yn ogystal, mae'n rhaid cynnwys yr wybodaeth safonol ganlynol yn yr **holl** orchmynion sy'n galw am ddilyn hyfforddiant a/neu ddarparu adroddiadau cynnydd i CGA er mwyn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth.

(d) **Hyfforddiant***:* mae'n rhaid i Bwyllgor fod yn rhesymol hyderus, lle y bo'n bosibl, bod y cwrs yn bodoli ar yr adeg y bydd yn gosod y Gorchymyn, ac mae'n rhaid iddo nodi'n glir:

(i) diben yr hyfforddiant;

(ii) mai cyfrifoldeb yr ymarferydd, nid CGA, yw dod o hyd i gwrs, *os* na all y Pwyllgor awgrymu darparwr hyfforddiant a/neu gwrs priodol; a

(iii) bod rhaid iddo gael ei gymeradwyo gyntaf gan y swyddog a awdurdodir yn briodol cyn ei ddilyn; a

(iv) phwy fydd yn gyfrifol am gost yr hyfforddiant (yr ymarferydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau);

(v) erbyn pryd mae angen cwblhau hyfforddiant o'r fath.

(e) **Monitro**. Rhaid i Bwyllgor nodi:

(i) diben y monitro. Er enghraifft, i sicrhau bod yr ymarferydd yn brydlon, ei fod yn cadw at bolisi'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd neu ei fod yn ymateb yn gadarnhaol i driniaeth adsefydlu ar gyfer alcohol neu gyffuriau; a

(ii) phwy fydd yn gyfrifol am y monitro, ac yn ymgymryd ag ef. Er enghraifft, Pennaeth sefydliad Addysg Bellach, Swyddog TG neu gwnsler camddefnyddio sylweddau.

(f) **Adroddiadau/tystiolaeth i CGA** sy'n deillio o'r gofyniad am amodau 'Hyfforddi' a 'Monitro' (fel y nodir uchod). Rhaid i Bwyllgor nodi:

(i) pa adroddiadau/tystiolaeth y mae angen eu darparu i CGA. Er enghraifft, adroddiadau monitro yn ymwneud â defnyddio TG neu iechyd ymarferydd, neu dystiolaeth bod cwrs hyfforddiant wedi'i gwblhau, a

(ii) gan bwy mae angen cwblhau adroddiadau/tystiolaeth o'r fath. Er enghraifft, Swyddog TG ysgol, meddyg teulu neu ddarparwr hyfforddiant; a

(iii) phryd mae angen darparu adroddiadau/tystiolaeth o'r fath. Er enghraifft, bob 3 mis / 6 mis / 12 mis, neu pan gwblheir cwrs hyfforddi.

Mae angen i'r Pwyllgor penodol bennu'r newidynnau hyn, yn ôl yr achos penodol, ond mae'n rhaid iddynt fod yn realistig ac yn ymarferol.

Yn ychwanegol, mae'n rhaid i Bwyllgor nodi'n glir:

(iv) **mai cyfrifoldeb yr athro fydd cyflwyno adroddiad i'r swyddog a awdurdodir yn briodol**, hyd yn oed os bydd yr adroddiad/y dystiolaeth yn dod oddi wrth drydydd parti; a

(v) bod rhaid i unrhyw adroddiad/tystiolaeth sy'n ofynnol gael ei darparu i'r swyddog a awdurdodir yn briodol ar gyfer achos yr ymarferydd, a hefyd i gyflogwyr neu asiantaethau yn ôl disgresiwn y Cyngor, o bosibl.

## 4 Monitro

Mae CGA wedi datblygu polisi o fonitro Gorchmynion Cofrestru Amodol a Gorchmynion Atal sy'n pennu amodau:

(a) yn flynyddol; neu

(b) dros gyfnod arall y bernir sy'n briodol o ystyried hyd y gorchymyn penodol (er enghraifft, pan fo hyd y Gorchymyn yn 12 mis neu lai); neu

(c) dros gyfnod arall y bernir sy'n briodol o ystyried amlder yr adrodd sy'n ofynnol; (er enghraifft, pan fydd CGA yn gofyn am adroddiad bob 3 mis).

Pan fo CGA yn cael gwybodaeth o ganlyniad i'r monitro hwn, ac mae Swyddog y Pwyllgor o'r farn na chydymffurfiwyd â'r amodau sydd wedi'u gosod, neu mae'r ymarferydd yn methu ag ymateb i gais CGA am dystiolaeth bod yr ymarferydd wedi cydymffurfio ag amodau, bydd Swyddog y Pwyllgor yn cyfeirio'r mater at Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer a gynullir o'r newydd a fydd yn penderfynu a yw'r ymarferydd wedi methu â chydymffurfio â'r amod(au) (Rheol 33).

## 5 Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestreion gyda CGA

**Gall** Pwyllgor gyfeirio at y Cod wrth benderfynu gosod Gorchymyn Cofrestru Amodol neu Orchymyn Atal sy'n pennu amodau (gweler yr Arweiniad ynghylch Sancsiynau Dangosol). Os bydd yn gwneud hynny, yna ni ragwelir y byddai angen i Bwyllgor gyfeirio at y Cod eto wrth gyfiawnhau gofynion unrhyw amodau. Dyfarniad i'r Pwyllgor fyddai hynny, ar sail ei ganfyddiadau.

CRONFA AMODAU

1. PERSONAU COFRESTREDIG

| HANFODOL i bob gorchymyn gydag amodau cysylltiedig, a lle mae'r person wedi'i gofrestru | | |
|---|---|---|
| **Elfen** | **Geiriad a awgrymir** | **Ystyriaethau perthnasol** |
| **Dyddiad dod i rym**<br>(gorchymyn ac amodau fel ei gilydd)<br>3.2(a) | Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu gosod Gorchymyn Cofrestru Amodol/Gorchymyn Atal sy'n pennu amodau ar eich cofrestriad. Mae'r Gorchymyn hwn, ac amodau'r Gorchymyn hwn, yn dod i rym ar unwaith. | ▪ Dylai'r Pwyllgor sicrhau bod y person wedi'i gofrestru cyn drafftio ei benderfyniad.<br><br>▪ Fel arfer, daw Gorchymyn i rym o'r dyddiad y caiff ei osod. |
| **Hyd y Gorchymyn**<br>(gorchymyn ac amodau fel ei gilydd)<br>3.2(b) | Bydd y Gorchymyn hwn mewn grym heb derfyn amser.<br><br>**NEU**<br><br>Bydd y Gorchymyn hwn mewn grym am gyfnod o 12 mis.<br><br>------------------------------------------------------------------------------------------------------<br><br>Caiff y Gorchymyn hwn ei ddileu oddi ar eich cofrestriad os cydymffurfir â'r holl amodau a bennir ynddo o fewn y cyfnod a nodir. | ▪ Dylai'r Pwyllgor sicrhau bod y person wedi'i gofrestru cyn drafftio ei benderfyniad.<br><br>Ni all Gorchymyn Atal fod mewn grym 'heb derfyn amser', ond am 2 flynedd ar y mwyaf.<br><br>▪ Os nad yw Pwyllgor yn pennu am ba hyd y bydd Gorchymyn Cofrestru Amodol mewn grym, bydd mewn grym yn barhaol<br><br>▪ Mae'n bosibl y gellir cysylltu hyd y Gorchymyn â therfynau amser yr amodau. Er enghraifft, gallai gofynion a osodir ar y person cofrestredig o ran hyfforddi a/neu fonitro fod yn fyrrach na'r Gorchymyn. |
| **Trosglwyddedd**<br>3.2(c) | Cyn derbyn unrhyw gynnig cyflogaeth y mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA ar ei gyfer yn ystod cyfnod y Gorchymyn hwn, mae'n rhaid i chi ddarparu copi o'r Hysbysiad Penderfyniad mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn i'ch darpar gyflogwr (ysgol, Awdurdod Lleol, Corff Llywodraethu neu asiantaeth neu sefydliad Addysg Bellach).<br><br>Mae'n rhaid i chi hysbysu swyddog CGA a awdurdodir yn briodol yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn eich cyflogaeth y mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA ar ei chyfer yn ystod cyfnod y Gorchymyn hwn, a chyn gynted ag y bydd newid yn digwydd. | ▪ Mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn cynnwys yn nhestun y Gorchymyn beth yw ystyr 'cyflogwr', fel bod y person cofrestredig yn deall pwy mae angen iddo eu hysbysu.<br><br>▪ Mae gofyn i berson cofrestredig ddarparu copi o'r Hysbysiad Penderfyniad i'r cyflogwr yn sicrhau bod testun llawn y Gorchymyn yn hysbys. |

| HANFODOL ar gyfer <u>pob gorchymyn</u> gydag amodau HYFFORDDIANT cysylltiedig, a lle mae'r person <u>wedi'i gofrestru</u> | | |
|---|---|---|
| **Elfen** | **Geiriad a awgrymir** | **Ystyriaethau perthnasol** |
| **Hyfforddi/Adrodd**<br>3.3(d) a 3.3 (f) | Er mwyn gwella'ch sgiliau xxxx, gofynnir i chi ddilyn cwrs hyfforddi mewn perthynas â xxxx, a'i gwblhau cyn pen xxx mis/blynedd ar ôl dyddiad gweithredu'r Gorchymyn hwn.<br><br>**NEU**<br><br>Er mwyn gwella'ch sgiliau xxxx, gofynnir i chi ddilyn cwrs hyfforddi mewn perthynas â xxxx, a'i gwblhau erbyn xxxx.<br><br>-----------------------------------------------------------------------------------------------------------<br><br>Eich cyfrifoldeb chi fydd cael hyd i'r cwrs hyfforddi hwn, ac mae'n rhaid i chi geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig y swyddog a awdurdodir yn briodol cyn ymgymryd ag ef. Chi fydd yn gyfrifol am gost yr hyfforddiant hwn.<br><br>Pan gwblheir y cwrs hyfforddi hwn, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r swyddog a awdurdodir yn briodol eich bod wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i'ch darparwr hyfforddiant ddarparu'r dystiolaeth ysgrifenedig i chi. | ▪ Mae'n rhaid i Bwyllgor fod yn rhesymol hyderus, lle y bo'n bosibl, bod cwrs penodol yn bodoli ar yr adeg y bydd yn gosod y Gorchymyn. Os nad yw'n bodoli, gellid rhwystro'r person cofrestredig rhag cydymffurfio â'r Gorchymyn a osodir.<br><br>▪ Gall Pwyllgor fod mewn sefyllfa i nodi cwrs hyfforddi/darparwr hyfforddiant penodol yn sgîl arbenigedd aelod arbennig.<br><br>▪ Dylai Pwyllgor ystyried cost gyffredinol yr hyfforddiant sy'n ofynnol o ran gallu'r person cofrestredig i'w thalu, h.y., gallai cost ormodol gyfyngu ar ei allu i gydymffurfio â'r amod.<br><br>▪ Gall adrodd i CGA ddeillio o amod hyfforddi a osodir ar y person cofrestredig, neu amod monitro a osodir ar y person cofrestredig. |

| HANFODOL ar gyfer <u>pob gorchymyn</u> gydag amodau MONITRO cysylltiedig, a lle mae'r person <u>wedi'i gofrestru</u> | | |
|---|---|---|
| **Elfen:** | **Geiriad a awgrymir** | **Ystyriaethau perthnasol** |
| **Monitro/Adrodd**<br>3.3(e) a 3.3(f) | Byddwch yn darparu adroddiadau ysgrifenedig gan eich Pennaeth / swyddog TG yr ysgol / eich cwnsler camddefnyddio sylweddau i swyddog CGA a awdurdodir yn briodol, bob xxxx mis/xxx blynedd, sy'n dangos eich bod yn brydlon / yn cadw at bolisi'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd / yn ymateb yn gadarnhaol i driniaeth adsefydlu ar gyfer alcohol neu gyffuriau.<br><br>**NEU**<br><br>Byddwch yn darparu adroddiad ysgrifenedig gan eich Pennaeth / swyddog TG yr ysgol / eich cwnsler camddefnyddio sylweddau i swyddog CGA a awdurdodir yn briodol, erbyn xxxx, sy'n dangos eich bod yn brydlon / yn cadw at bolisi'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd / yn ymateb yn gadarnhaol i driniaeth adsefydlu ar gyfer alcohol neu gyffuriau. | ▪ Gall adrodd i CGA ddeillio o amod hyfforddi a osodir ar y person cofrestredig, neu amod monitro a osodir ar y person cofrestredig.<br><br>▪ Ni fyddai CGA yn argymell bod Pwyllgor yn gofyn i nifer o adroddiadau gael eu darparu yn rhy gyflym un ar ôl y llall gan berson cofrestredig, oherwydd ei bod yn bosibl na allai hyn ddarparu adlewyrchiad gwir o'i gynnydd tra'i fod yn destun monitro. |

**2. PERSONAU HEB EU COFRESTRU**

| **HANFODOL ar gyfer pob gorchymyn gydag amodau cysylltiedig, a lle mae'r person heb ei gofrestru** | | |
|---|---|---|
| **Elfen** | **Geiriad a awgrymir** | **Ystyriaethau perthnasol** |
| **Dyddiad dod i rym**<br>(y gorchymyn a'r amodau fel ei gilydd)<br>3.2(a) | Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu gosod Gorchymyn Cofrestru Amodol/Gorchymyn Atal sy'n nodi amodau. Daw'r Gorchymyn i rym ar unwaith, ond bydd yr amodau ond yn dod yn weithredol os byddwch yn ailgofrestru gyda CGA, a hynny ar y dyddiad y byddwch yn ailgofrestru gyda CGA. | ▪ Dylai'r Pwyllgor sicrhau nad yw'r person wedi'i gofrestru cyn drafftio ei benderfyniad. |
| **Hyd y Gorchymyn**<br>(y gorchymyn a'r amodau fel ei gilydd)<br>3.2(b) | Bydd y Gorchymyn hwn mewn grym heb derfyn amser.<br><br>**NEU**<br><br>Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar unwaith, ond bydd yr amodau ond yn dod yn weithredol os byddwch yn ailgofrestru gyda CGA, a hynny ar y dyddiad y byddwch yn ailgofrestru gyda CGA.<br>----------------------------------------------------------------------------------------------------------<br><br>Caiff y Gorchymyn hwn ei ddileu oddi ar eich cofrestriad os cydymffurfir â'r holl amodau a bennir ynddo o fewn y cyfnod a nodir. | ▪ Dylai'r Pwyllgor sicrhau nad yw'r person wedi'i gofrestru cyn drafftio ei benderfyniad.<br><br>▪ Ni all Gorchymyn Atal fod mewn grym 'heb derfyn amser', ond am 2 flynedd ar y mwyaf.<br><br>▪ Os na fydd Pwyllgor yn nodi am ba hyd y dylai Gorchymyn Cofrestru Amodol fod mewn grym, os/pan fydd yr athro'n ailgofrestru, bydd mewn grym yn barhaol. |
| **Trosglwyddedd**<br>3.2(c) | Cyn derbyn unrhyw gynnig o gyflogaeth newydd fel person y mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA ar ei gyfer, mae'n rhaid i chi ddarparu copi o'r Hysbysiad Penderfyniad mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn i'ch darpar gyflogwr (ysgol, Awdurdod Lleol, Corff Llywodraethu neu asiantaeth neu sefydliad Addysg Bellach).<br><br>Mae'n rhaid i chi hysbysu swyddog CGA a awdurdodir yn briodol yn ysgrifenedig os byddwch yn dychwelyd i'ch proffesiwn ac yn cael cyflogaeth y mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA ar ei chyfer, a hynny cyn gynted ag y bydd hynny'n digwydd. | ▪ Mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn cynnwys yn nhestun y Gorchymyn beth yw ystyr 'cyflogwr', fel bod y person yn deall pwy mae angen iddo eu hysbysu.<br><br>▪ Mae gofyn i ymarferydd sy'n dychwelyd i'w broffesiwn ddarparu copi o'r Hysbysiad Penderfyniad i'w gyflogwr newydd yn sicrhau bod testun llawn y Gorchymyn yn hysbys |

**HANFODOL ar gyfer pob gorchymyn gydag amodau HYFFORDDIANT cysylltiedig, a lle mae'r person heb ei gofrestru**

| Elfen | Geiriad a awgrymir | Ystyriaethau perthnasol |
| --- | --- | --- |
| **Hyfforddi/Adrodd**<br>3.3(d) a 3.3 (f) | Er mwyn diweddaru a gwella'ch sgiliau xxxx, gofynnir i chi ddilyn cwrs hyfforddi mewn perthynas â xxxx, a'i gwblhau cyn pen xxx mis/blynedd ar ôl y dyddiad y byddwch yn ailgofrestru gyda CGA.<br><br>------------------------------------------------------------------------------------------------------------<br><br>Eich cyfrifoldeb chi fydd cael hyd i'r cwrs hyfforddi hwn, ac mae'n rhaid i chi geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig y swyddog a awdurdodir yn briodol cyn ymgymryd ag ef. Chi fydd yn gyfrifol am gost yr hyfforddiant hwn.<br><br>Pan gwblheir y cwrs hyfforddi hwn, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r swyddog a awdurdodir yn briodol eich bod wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i'ch darparwr hyfforddiant ddarparu'r dystiolaeth ysgrifenedig i chi. | ▪ Yn ddelfrydol, mae'n rhaid i Bwyllgor fod yn rhesymol hyderus, lle y bo'n bosibl, bod cwrs penodol yn bodoli ar yr adeg y bydd yn gosod y Gorchymyn. Fodd bynnag, pan nad yw person wedi'i gofrestru ar adeg penderfyniad y Pwyllgor, ni fydd yn gwybod a fydd yn ailgofrestru, neu pryd. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai fod yn fwy ymarferol cyfeirio at gwrs hyfforddi cyffredinol, yn hytrach na chwrs penodol.<br><br>▪ Dylai Pwyllgor ystyried cost gyffredinol yr hyfforddiant sy'n ofynnol o ran gallu'r person cofrestredig i'w thalu, h.y., gallai cost ormodol gyfyngu ar ei allu i gydymffurfio â'r amod.<br><br>▪ Gall adrodd i CGA ddeillio o amod hyfforddi a osodir ar y person cofrestredig, neu amod monitro a osodir ar y person cofrestredig. |

| | | |
|---|---|---|
| **HANFODOL ar gyfer pob gorchymyn gydag amodau HYFFORDDIANT cysylltiedig, a lle mae'r person heb ei gofrestru** | | |
| **Elfen** | **Geiriad a awgrymir** | **Ystyriaethau perthnasol** |
| **Monitro/Adrodd**<br>3.3(e) a 3.3(f) | Byddwch yn darparu adroddiadau ysgrifenedig gan eich Pennaeth / swyddog TG yr ysgol / eich cwnsler camddefnyddio sylweddau i swyddog CGA a awdurdodir yn briodol, bob xxxx mis/xxx blynedd, sy'n dangos eich bod yn brydlon / yn cadw at bolisi'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd / yn ymateb yn gadarnhaol i driniaeth adsefydlu ar gyfer alcohol neu gyffuriau a hynny o'r dyddiad rydych yn cael cyflogaeth y mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA ar ei chyfer.<br><br>**NEU**<br><br>Byddwch yn darparu adroddiad ysgrifenedig gan eich Pennaeth / swyddog TG yr ysgol / eich cwnsler camddefnyddio sylweddau i swyddog CGA a awdurdodir yn briodol, o fewn xxxx mis i'r dyddiad rydych yn cael cyflogaeth y mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA ar ei chyfer, sy'n dangos eich bod yn brydlon / yn cadw at bolisi'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd / yn ymateb yn gadarnhaol i driniaeth adsefydlu ar gyfer alcohol neu gyffuriau. | ▪ Gall adrodd i CGA ddeillio o amod hyfforddi a osodir ar y person cofrestredig, neu amod monitro a osodir ar y person cofrestredig.<br><br>▪ Ni fyddai CGA yn argymell bod Pwyllgor yn gofyn i nifer o adroddiadau gael eu darparu yn rhy gyflym un ar ôl y llall gan berson cofrestredig, oherwydd ei bod yn bosibl na allai hyn ddarparu adlewyrchiad gwir o'i gynnydd tra'i fod yn destun monitro. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol pan fydd yn penderfynu dychwelyd i'w broffesiwn ar ôl cyfnod o absenoldeb. |